

gwenno gwilym

# LOL

"Biwtar arall gan awdur V+Fo!"
**Llwyd Owen**

# LOL

Gwenno Gwilym

## Pennod 1

Saith diwrnod sans Pete. Dyna'r peth cynta dwi'n feddwl. Bob bora. Er bod pob dim dal yn fflyffi a'n llgada i'n crynshi, dwi dal yn meddwl am Pete, neu diffyg Pete, yr eiliad dwi'n deffro. Fatha addict.

Wedyn dwi'n cofio pob dim eto. Cael ias oer afiach. Fel fod rhywun yn pwyso refresh. Ctrl+R on my ultimate humiliation. Gneud i fi gyrlio fyny yn y foetal position. Gwasgu nghoesa'n dynn dynn a cau'n llgada.

Flashbacks o pawb yn isda rownd y bwrdd hir efo'u laptops a'u decaf soya lattes yn y stafell gyfarfod stuffy. Cofio'r union eiliad nes i sylwi fod rwbath afoot. Nes i ddechra gweld fy hun o'r awyr. Gadal fy nghorff yn llwyr a cael moment hollol glir o ddallt fod pob dim yn acshli digwydd go iawn a fod gen i ddim rheolaeth o gwbl. Andros o anodd disgrifio'r sensation yn iawn rili. Fel gwylio dy hun ar y teledu. Gweld fy hun in real time yn sefyll a bangio'r bwrdd efo'n nwrn cyn pwyso'n mlaen reit i wyneb Pete, a gweiddi, "you, Peter Smith, are a cliché!"

Clwad pawb yn y stafell yn anadlu fewn run pryd. Synhwyro fod y teacher's pet yn nesau at ei long awaited downfall ma siŵr. Gweld ceg Pete yn agor led y pen, ei lygid yn saethu i bob man tra'n hanner codi. Neb yn barod am public showdown. Do'n i bendant ddim yn barod. Ond o'n i on a roll debyg.

"She," a nes i bwyntio at yr intern newydd drws nesa i Pete, "is twenty-three. You, Pete, a forty-nine-year-old man, are flirting with a twenty-three-year-old! Who do you think you are? Leonardo Di-fucking-Caprio??"

Drw gornel fy llgada, gweld Jaz, fy ffrind annwyl a partner in crime, yn codi. Gwbo fod gen i ddigon o amser, diolch i'w sodla skyscraper a'i pencil skirt, i neud damage go iawn cyn iddi fy nghyrraedd o ben arall y bwrdd.

“I can’t believe I’ve wasted my best years on you.”

Clwad y cama bach brysiog yn dod yn nes. Neb arall yn symud.

“And you,” wrth droi at yr intern, “don’t fall for it like I did.”

Honno’n edrych yn barod i grio, bechod. Collateral damage. Pete yn codi, ysgwyd ei ben, ymddiheuro. Instant switch i crisis management mode.

A wedyn nes i deimlo llaw ar fy mraich, y gwinedd miniog yn gwasgu’r cnawd, a Jaz yn sibrwd, “Lol. C’mon. Not the time or the place.”

Codi mraich yn flin, ei gorfodi i ollwng, mor benderfynol o gael fy Eastenders dwff dwff dwff moment. Isio gadal ar high. Deud wbath cutting ond profound. Rwbath sy’n gneud i bawb weld y gwir, ella clapio, a finna’n cerdded allan gyda swagger. Dyna oedd y plan.

Ond y cwbl ddoth allan oedd, “PRICK!”

Gradd mewn Saesneg, gyrfa’n sgwennu slogans a that’s the best I could do. Accurate ond … didn’t exactly go out with a bang, na?

Wedyn, fatha balŵn yn popio, nath y panig llwyr ar wyneb Pete, a gwyneba pawb arall, ddod â fi yn ôl i realiti. Yn ôl i fy nghorff.  A dyna pryd nes i ddechra crynu.

A dwi, yn debyg iawn i fy ffôn, wedi bod yn crynu ers hynny. Ma grwp WhatsApp yr offis dal mewn overdrive.

**Lucy:**
**Lol, OMG, what just happened?**

**Gabe:**
**He WAS flirting, babe. Don’t let him tell you otherwise.**

**Beth Ffrinj:**
**You weren’t even at the meeting @Gabe**

Gossip hunting di fframio fel consyrn.

**Thirsty Dave:**
**I’m here if you ever need to talk.**

**Beth(newydd):**
**Interns can’t flirt with the boss. Need to be on a permanent contract before you can get away with that sort of behaviour. Amirite?**

**Beth Ffrinj:**
**😱 @Beth(newydd). Are you ok @Lol?**

**Beth(newydd):**
**No, but seriously. She should know better**

Wastad yn licio beio merched, dydan? Default setting mewn unrhyw crisis. A wedyn, ma rhai pobl, y rhai dwi'n prin nabod mostly, wedi bod yn fwy direct.

**Mila:**
**I can't believe you and Pete have been banging! Well jel xx**

**Lucy:**
**OMG YOU AND PETE? I need the deets. Bet he's filthy! I can see it in his eyes. Cocktails soon?**

Dwi'm isio dychmygu be ma pobl yn ddeud yn y side chat sydd yn sicr wedi cael ei greu, minus fi a Jaz.

Ac er mod i'n ddarllenwr brwd o self-help manuals ac yn hollol ymwybodol fod ffôn = bad, dwi ddim yn dda iawn am roi'r cyngor yna into action so bora ma, as always, dwi'n estyn fy ffôn, fy ffrind bach ffyddlon, cyn hyd yn oed meddwl am godi. Gorwedd ar fy ochr, barod am y dôs dyddiol o self-harm meddyliol.

Agor whatsapp. Saithdeg wbath o unread messages yn y muted offis chat. Vom. Sgrolio trw chat fi a Pete, er mod i'n cofio pob gair. Sgwrs unochrog rŵan obvs achos I am the queen of the passive aggressive silent treatment ma'n debyg. Newyddion i fi fod gennai gymaint o self-control. Should've summoned it dwy flynedd yn ôl ac ella fysa'n mywyd i'n bach llai o lanast. Eniwê, dim pwynt codi pais wedi piso and all that.

A dwi'n ennill mewn un ffordd bach, dydw? Reclaiming my power drw beidio ateb texts. Modern day … Boudica? Dwi'm rili'n siŵr be nath hi chwaith, so ella ddim. Fysa Pete yn gwbo be nath Boudica. Ffycin know it all.

Darllen y rhai ola eto. Gyd wedi cyrraedd o fewn eiliada i'w gilydd. Machine gun Pete.

**Big Boss Pete:**
**WHAT THE ACTUAL FUCK LOL?**

**Big Boss Pete:**
**So unprofessional**

**Big Boss Pete:**
**I wasn't fucking flirting**

**Big Boss Pete:**
**I don't know what to do. I can't believe you just did that. WTF**

**Big Boss Pete:**
**I am actually lost for words**

**Big Boss Pete:**
**This is going to cause so much shit**

For me. Dyna ma'n feddwl. This is going to cause so much shit FOR ME.

**Big Boss Pete:**
**We need to talk**

**Big Boss Pete:**
**Don't ignore me**

**Big Boss Pete:**
**I need the data for meeting this afternoon. Berlin client wants feedback.**

**Big Boss Pete:**
**Lol???**

Hardly the language of love. Dwi'n sgwennu texts dychmygol yn y Notes app. Eto.

**PRICK**

**PRICK**

**PRICK**

**Tell the client that there is no fucking data because your bit on the side has had enough of your shit**

Deletio pob dim. Ochneidio. Gwbo'n iawn mod i'n meddwl dim o hynna. Rhoi'r ffôn i lawr. Gwbo hefyd fod rhaid i fi godi a gadal y fflat at some point ond ma meddwl am weld pobl yn gneud i fi hyperventilatio. My own personal lockdown. Situation dire. Mentally unstable vibes. Eto.

Estyn fy ffôn. The never-ending dance. Agor insta. Checio'r stori nes i bostio nithiwr. Fideo suitably moody o'r traeth. Miwsig pretentious obscure. U ok hun vibes. Pete di weld o. Dim comment.

Dwi'n lluchio'n ffôn i ben draw y stafell, sef basically jest gwaelod y gwely, achos … Llundain. Dwi fod yn byw mewn llofft enfawr hefo free standing bath a gwely four poster. Balconi ella? Dwi'n haeddu balconi erbyn hyn. I've done my time mewn stafell bocs sgidia hefo ffenest sy'n chwibanu yn y gwynt. This is not my natural habitat. Cysuro'n hun trw fyseddu'r cyfars gwely Laura Ashley. O leia dwi'n gorwedd mewn cocoon o'r finest cotton. Finest cotton sydd angen wash, ond dal. Edrych ar fy wordrob simsan shit sy'n gorlifo hefo dillad drud. Pam fod pob dim yn fy mywyd i yn gymaint o contradiction?

Cnoc ar y drws.

"You awake yet?" yn dod o'r ochr arall.

Jaz yn agor y drws hefo gusto a ngwallt i'n symud yn y gwynt.

"Now I am yes!" dwi'n hanner gwenu.

Jaz mewn dillad gwaith. Hogla sent. Edrych yn well rested er mod i di chlwad hi'n dod adra ac yn cwcio wbath wedi hanner nithiwr. Gwallt mewn cwnffon sleek. Ready to take on the world.

“Seen your late night Insta action. Stop sending coded SOS messages to Pete. Stay away from him. A middle-aged man who wears boat shoes on dry land should not be causing this much heartache.”

Ma i’n dal yn sefyll yn y drws, un llaw ar y ffram a’r llall ar yr handlen, rw hanner swingio fewn i’r stafell fel mai’n deud hyn.

Pan dwi’n ei gweld yn clocio’r botel o dabledi bach gwyn ar y silff uwch ben y gwely dwi’n trio codi i’w cuddio ond mae Jaz yn gynt ac yn bachu’r botel a’i rhoi yn ei phoced in one swift move.

“I am confiscating these. Despite recent events, I do not condone casual Tuesday night consumption.”

Ar ôl deud hynna, mai’n syllu arnai mewn ffordd rili intense a dwi’n ystyried deud wrthi am y methu cysgu. Fod o’n waeth. New level.

“You need fresh air. Think of yourself as a pet. You need food, water, exercise and a clean cage,” a mai’n pwyntio bys rownd fy stafell wrth ddeud hynna, “this cage is not acceptable.”

Dwi’n wfftio cyn deud, “I know you stole that. Our algos are synched remember?” a dwi’n pwyntio bys yn ôl arni hitha.

“Also, Alexis is still in my room. No naked roaming. And block Pete,” plygu lawr a rhoi sws i fi ar fy nhalcen cyn yhcwanegu, “you’re doing great. Don’t give in my beautiful friend. Think of him as a virus. Takes a while to leave your system.”

Taflu’n mreichia rownd ei gwddw, gwrthod gollwng, gneud iddi ddisgyn ar y gwely drws nesa i fi.

Hitha’n gafal yn dynn ynai cyn mwmblan, “pets also need regular showers.”

“Don’t tell him I’m a mess,” dwi’n sibrwd.

Cwbl dwi’n gael yn ateb ydi extra squeeze bach neis cyn iddi godi. Ac er mod i’n hollol ymwybodol fod ei chyngor hi’n spot on, fel arfer, dwi’n troi i wynebu’r wal a cau’n llgada eto. Ymlacio ar ôl i fi glywed y drws mawr yn cau ar ei hôl. Ma’r anifal anwes yma angen hibernatio.

bwthyn
GWASG Y BWTHYN